SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Priti Patel MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf/Our Ref: AJ/HW/1980

2 Ebrill/April 2020

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary ,

**Adroddiad Archwiliad Thematig Cenedlaethol Diogelu Plant**

**National Child Protection Inspection –Thematic Report.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Adroddiad Archwiliad Thematig Cenedlaethol Diogelu Plant Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi .

As required by statue, I am writing to you with my comments on Her Majesty’s Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service National Child Protection Inspection Thematic Report.

Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru ei Adroddiad Diogelu Plant annibynnol ym mis Hydref 2019 ac roeddwn yn falch bod yr arolygaeth wedi nodi fy mod i, y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm wedi ymroi i ddiogelu pobl fregus. Fy mlaenoriaeth gyffredinol yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yw lleihau camfanteisio troseddol ar bobl fregus. Mae'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, a sefydlwyd i ymdrin â Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ledled ardal yr Heddlu. Gwneir hyn drwy ymyrraeth gynnar er mwyn torri cylchoedd cam-drin, camfanteisio a bregusrwydd yn y dyfodol.

North Wales Police received their individual Child Protection Report in October 2019 and I was pleased that the inspectorate identified that myself, the Chief Constable and his senior team are committed to protecting vulnerable people. The overarching priority of my Police and Crime Plan is to reduce the criminal exploitation of vulnerable people. The Early Action Together programme, set up to tackle Adverse Childhood Experiences, is beginning to have a positive effect across the Force area through early intervention in order to break the cycles of abuse, exploitation and future vulnerability.

Mae'r archwiliad Cenedlaethol wedi cynnig tri argymhelliad ar gyfer Prif Gwnstabliaid yn y 43 heddlu. Cytunwyd nad yw cymeradwyaeth trydydd parti yn berthnasol i Heddlu Gogledd Cymru gan ei fod eisoes wedi cael ei archwilio cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

The National inspection has provided three recommendations for Chief Constables in all 43 forces. It has been agreed that the third recommendation does not apply to North Wales Police because it has already been inspected prior to the release of this report.

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

Mae'r argymhelliad cyntaf yn gofyn i Brif Gwnstabliaid gymryd camau i leihau troseddoli plant yn ddiangen. Cytunaf mai llwybrau cyfiawnder di-drosedd yw'r rhai mwyaf effeithiol yn lleihau ail-droseddu a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at ymddygiad troseddol. Mae atgyfeirio yn flaenoriaeth plismona yng Ngogledd Cymru wrth i ni gyflwyno Checkpoint Cymru ar gyfer oedolion. Mae hwn yn gynllun sy'n rhoi cyfle i unigolion fynd i'r afael â'u problemau yn lle cael eu prosesu drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Dull tebyg sydd gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid wrth ddelio â'r rheini sydd o dan 18 oed. Maent yn canolbwyntio ar y canlyniad gorau i'r plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar y troseddoli.

Mae'n amlwg bod gwaith y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol ac maent yn cydnabod y problemau a'r bregusrwydd sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cyrsiau cyfiawnder adferol, cyrsiau gweithio gyda dicter ac ymddygiad a chyrsiau ymwybyddiaeth dioddefwyr. Rwyf yn fodlon bod yr heddlu yn gweithio tuag at leihau troseddoli plant yn ddiangen a byddaf yn parhau i fonitro eu hymdrech wrth gwblhau'r argymhelliad hwn yn y Bwrdd Gweithredol Strategol lle gwnaf ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

Mae'r argymhelliad olaf yn gofyn am adolygiad o reolaeth perfformiad a dulliau sicrwydd ansawdd. Rwyf yn fodlon bod gan Heddlu Gogledd Cymru fesurau yn eu lle i adolygu perfformiad. Un ohonynt yw Panel Craffu Allan o'r Llys lle adolygir wyth achos o droseddau ieuenctid bob chwarter. Rwy'n cael fy nghynrychioli ar y panel hwn ac yn sicr bod achosion troseddau plant yn cael eu hadolygu gan Baneli

The first recommendation requests that Chief Constables take steps to reduce the unnecessary criminalisation of children. I agree that non-criminal justice pathways are the most effective in reducing reoffending and addressing the underlying issues which result in criminal behaviour. Diversion is at the forefront of policing in North Wales with the introduction of Checkpoint Cymru for adults, which provides individuals with the opportunity to tackle their underlying issues instead of being processed through the Criminal Justice System. The Youth Justice Teams apply a similar method when dealing with those under the age of 18 by focussing on the best result to the child as opposed to focussing on the criminalisation.

It is evident that the work of the Youth Justice Teams is effective and they are recognising the underlying issues and vulnerabilities that are contributing to offending behaviour. These methods include restorative justice, anger and behavioural working and victim awareness courses. I am satisfied that the force are working towards reducing the unnecessary criminalisation of children and will continue to monitor their efforts in completing this recommendation at the Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

The final recommendation request a review of performance management and quality assurance approaches. I am content that North Wales Police have measures in place to review performance, one of which is at the Out of Court Scrutiny Panel where eight cases of youth offences are reviewed each quarter. I am represented at this panel and am assured that child crime cases are reviewed by

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**

Cyfiawnder Ieuenctid a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail bob achos. Gwnaf barhau i graffu'r heddlu yn y panel hwn a thrwy'r Bwrdd Gweithredu Strategol.

Youth Justice Panels and decisions are made on a case by case basis. I will continue to scrutinise the force at this panel and via the Strategic Executive Board.

Yn gywir

Yours sincerely

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489